# Propaganda

*"They stemmed the first mad onrush*
*Of the cultured German Hun,*
*Who'd outraged every female Belgian*
*And maimed every mother's son."*

Bardd Anhysbys, *A Medley of Song*, 1928

**Gwnaeth y ffaith fod yr Almaen wedi ymosod ar Wlad Belg fach a Ffrainc ym mis Awst 1914, fforffedu'r ochr foesol yr oedd wedi gobeithio'i sicrhau trwy ei phropaganda ei hun cyn y rhyfel. Fe wnaeth hyn alluogi propagandwyr Prydain i gyfiawnhau mynd i ryfel i'r dynion yr oedd arnyn nhw eu hangen bellach i ymuno er mwyn y Brenin a'r Wlad - 'For King and Country.**

At hynny, cynorthwywyd yr ymgyrch Brydeinig gan sawl camgymeriad trawiadol gan yr Almaen. Yr un mwyaf adnabyddus oedd suddo'r Lusitania yn 1915 yn ogystal â Telegram Zimmer man yn 1917 ac achos y Nyrs Edith Cavell, a ddienyddiwyd yn 1915. Cyflwynwyd Cavell fel 'angel trugaredd' a chafodd ei llofruddiaeth drychinebus ei gosod yn erbyn cefndir yr ymosodiad ar Wlad Belg.

Fe helpodd straeon o erchyllterau i gynnal y condemniad moesol o'r gelyn. Darparodd y stereoteip Prydeinig o'r 'Hun' y ffocws hanfodol i gynrychioli cymdeithas Almaenig oedd wedi'i seilio ar werthoedd milwrol. Stereoteip oedd yn croeshoelio milwyr, yn treisio gwragedd ac yn greulon gyda phlant. Efallai mae'r stori fwyaf erchyll yn ymwneud â'r rhyfel oedd y 'Ffatri Gyrff' Almaenig, oedd yn berwi cyrff dynol i greu nwyddau i'r rhyfel. Pan fu Ysgrifennydd Tramor Prydain, A.J.Balfour, yn astudio'r 'dystiolaeth' i'r stori yma, cytunodd ei bod yn amhendant ond ychwanegodd "ni ymddengys, yng ngoleuni'r nifer o weithredoedd erchyll y mae'r Almaenwyr yn euog ohonynt, bod unrhyw reswm pam na ddylai fod yn wir."

